

Ffocws ar Ymarfer



GWASG PRIFYSGOL CYMRU
UNIVERSITY OF WALES PRESS
CYHOEDDI CYMRU A'R BYD ER 1922
PUBLISHING WALES AND THE WORLD SINCE 1922

Nod *Ffocws ar Ymarfer* yw darparu erthyglau byr (2,500 gair ar y mwyaf), sy'n academiaidd gadarn ac yn gallu llywio ymarfer addysgol, gyda syniadau o Gymru ac o bob cwr o'r byd. Gellir cyflwyno erthyglau yn y Gymraeg neu yn Saesneg. Bydd erthyglau yn cael eu mentora gan gymheiriaid ac yn waith ymchwil arloesol, creadigol a gwreiddiol gan ymarferwyr, gweithwyr proffesiynol ac ymchwilwyr sy'n edrych ar wahanol ddimensiynau ymarfer addysgol.

Rydym yn annog cyfraniadau gan ymarferwyr ac ymchwilwyr ar bob cam o'u gyrfa ac o bob cwr o'r byd.

Dechrau cyflwyniad: journal.uwp.co.uk/wje/site/focus

Yr amserlen gyhoeddi

Cyhoeddir pob erthygl a dderbynnir yn ddwyieithog yn y casgliad *Ffocws ar Ymarfer* ar wefan Cylchgrawn Addysg Cymru a chaiff pob un DOI (dynodwr unigryw parhaol a pharhaus sy'n caniatáu i erthyglau gael eu darllen, eu lawrlwytho a'u dyfynnu).

Cyhoeddir erthyglau'n unigol ac yn barhaus drwy gydol y flwyddyn, ac felly nid ydynt yn ffurfio rhan o'r rhifynnau sydd wedi'u rhifo o Gylchgrawn Addysg Cymru. Mae'r Golygyddion yn cadw'r penderfyniad golygyddol terfynol pan yn cyhoeddi.

Gellir dyfynnu erthyglau o dan y fformat canlynol:

Awdur (Blwyddyn) "Teitl", *Ffocws ar Ymarfer* (Cylchgrawn Addysg Cymru), doi:

Canllawiau Cyflwyno

Mae'r casgliad *Ffocws ar Ymarfer* yn croesawu llawysgrifau gwreiddiol o ansawdd uchel sy'n cynrychioli amrywiaeth eang o ddulliau, damcaniaethau a pharadigmau/disgyrsiau sy'n gysylltiedig ag ymchwil addysgol.

Canllawiau ar Hyd Cyflwyniad

- Erthyglau Ymchwil: 2500 gair (ac eithrio cyfeiriadau a chrynodeb)

Croesewir cyflwyniadau sy'n cynrychioli ymagweddau eclecticig ac arbrofol tuag at ddulliau ymchwil a deilliannau, ac mae'r casgliad *Cylchgrawn Addysg Cymru hwn* yn annog cyflwyniadau gan awduron sy'n gyfranwyr newydd at sgysiau cyhoeddus am ymarfer addysgol.

Paratoi eich Cyflwyniad

Strwythur

Defnyddiwch y penawdau canlynol wrth gyflwyno eich gwaith. Arweiniad yn unig yw nifer y geiriau a nodir:

Crynodeb (150 gair, heb ei gynnwys yng nghyfanswm nifer y geiriau): Crynodeb byr o'r cyflwyniad a'r geiriau allweddol, i ateb y cwestiynau canlynol (nid yw'r rhain yn benawdau gofynnol): Pam cynhaliwyd yr astudiaeth?; Beth sydd eisoes yn hysbys?; Sut cafodd yr ymchwil ei chynnal a'i dadansoddi (dulliau, sampl, dull dadansoddi, ac ati); Beth mae'r erthygl hon yn ei ychwanegu?

1. Cyflwyniad (150 gair): Mae'r adran hon yn cyflwyno pwnc yr ymchwiliad, nodau'r ymchwil, cyd-destun cynnal yr ymchwil a pham mae angen yr astudiaeth.

2. Llenyddiaeth (500 gair): Mae'r adran hon yn darparu adolygiad o lenyddiaeth berthnasol i'r pwnc ymchwilio ac yn dangos eich gwybodaeth o'r maes.

3. Dulliau (750 gair): Mae'r adran hon yn disgrifio gweithdrefnau moesegol, sut y cynhyrchir y data, gweithdrefnau dadansoddol, a rhaid cynnwys yr is-benawdau canlynol (er y gallwch ychwanegu mwy):

- **Moeseg:** Mae'r adran hon yn disgrifio'r mesurau a gymerwyd i sicrhau bod yr ymchwil yn cael ei chynnal yn foesegol, yn enwedig o ran hawliau a lles cyffredinol cyfranogwyr - dylai gynnwys dyfyniadau academaidd.
- **Gweithdrefn Samplu a Disgrifiad:** Mae'r adran hon yn disgrifio'r broses o gynhyrchu'r sampl sy'n cymryd rhan yn yr astudiaeth, yn ogystal â disgrifiad manwl o nodweddion amrywiol y sampl sy'n briodol ac yn berthnasol i'r pwnc ymchwil.
- **Cynhyrchu a Dadansoddi Data:** Mae'r adran hon yn disgrifio'n fanwl y dulliau ynghlwm wrth gynhyrchu, dadansoddi a dehongli data a ddefnyddir yn yr astudiaeth.

4. Canfyddiadau a thrafodaeth (1,000 gair): Mae'r adran hon yn disgrifio deilliannau a/neu ganlyniadau'r ymchwil a sut mae hyn yn ymwneud â llenyddiaeth flaenorol a amlinellwyd gennych yn yr adolygiad llenyddiaeth. Mae'r adran hon yn darparu dehongliad o'r canfyddiadau trwy ystyried yn ofalus y dystiolaeth a'r damcaniaethau a ganfuwyd yn yr adolygiad o'r llenyddiaeth. Gallwch gyflwyno'r holl ganfyddiadau yn gyntaf ac yna trafod, neu amlinellu canlyniad ac yna trafod.

5. Casgliad (100 gair): Mae'r adran hon yn rhoi crynodeb byr o'ch ymchwil. Dylai nodi gwybodaeth a dealltwriaeth newydd sy'n cael eu sbarduno gan yr ymchwil a hysbysu'r darlennydd am bwysigrwydd ac arwyddocâd y deilliannau hyn i'r corff cynyddol o lenyddiaeth.

6. Cydnabyddiaethau (heb ei gynnwys yn nifer y geiriau) - er enghraifft, unrhyw gyllid a dderbyniwyd neu bobl a gymerodd ran yn yr astudiaeth neu a fu yn eich helpu yn y broses ymchwil.

7. Cyfeiriadau (heb eu cynnwys yn y cyfrif geiriau) – defnyddiwch ddull Harvard, gyda chofnodion yn nhrefn yr wyddor, fel yr enghreifftiau canlynol:

Abram, D. (2010). *Becoming Animal: An Earthly Cosmology*. Efrog Newydd: Vintage Books.

Jardine, D. W. (1992). *Immanuel Kant, Jean Piaget and the rage for order: Ecological hints of the colonial spirit in pedagogy*. *Educational Philosophy and Theory*, 24/1, 28–43.

Y Cenhedloedd Unedig (2021). World on the verge of climate 'abyss', as temperature rise continues: Prif swyddog y Cenhedloedd Unedig. 19 Ebrill 2021. Ar gael yn <https://news.un.org/en/story/2021/04/1090072> (cyrchwyd 26 Ebrill 2021).

Dylai dyfyniadau mewn testun hefyd fod yn gyson ag arddull Harvard, gan gynnwys awdur(on) a dyddiad(au) cyhoeddi'r ffynhonnell, gyda rhifau tudalennau yn cael eu nodi ar ôl dyfyniadau uniongyrchol.